

# Coleg Catholig Dewi Sant
# Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn gweithredu ac yn caffael nwyddau a gwasanaethau yn achosi niwed i eraill. Fel coleg Catholig, mae ein cenhadaeth wedi'i gwreiddio yn urddas cynhenid y person dynol. Wedi'i harwain gan egwyddorion Addysgu Cymdeithasol Catholig - yn enwedig urddas dynol, undod, y lles cyffredin a'r dewis ffafriol i'r tlodion - rydym yn gwrthod pob math o gamfanteisio, llafur gorfodol a masnachu pobl.

Rydym yn disgwyl i'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw gynnal yr un safonau a gweithredu gyda gonestrwydd, tegwch a pharch at hawliau dynol.

Rydym yn cefnogi dull Llywodraeth y DU o ymdrin ag Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol. Fel rhan o hyn, rydym yn hysbysu staff, myfyrwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid am ein disgwyliadau ynghylch caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, llafur gorfodol a llafur rhwymedig, a risgiau hawliau llafur o fewn cadwyni cyflenwi.

Rydym yn prynu llawer o'n nwyddau a'n gwasanaethau drwy fframweithiau caffael sector cyhoeddus cydnabyddedig. Mae'r sefydliadau hyn wedi sefydlu prosesau i asesu risg y gadwyn gyflenwi ac yn cyhoeddi eu datganiadau eu hunain yn amlinellu sut maent yn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern. Mae eu gwaith yn ein helpu i gynnal arferion caffael cyfrifol a thryloyw.

Yn seiliedig ar ganllawiau'r sector a'n hasesiadau ein hunain, rydym yn cydnabod bod y categorïau canlynol yn cario risg uwch:

- Dillad
- Bwyd
- Cyfarpar TGCh

Bydd y meysydd hyn yn parhau i gael sylw penodol. Lle bo'n briodol, rydym yn disgwyl i gyflenwyr ymrwymo i safonau llafur cydnabyddedig, megis Cod Sylfaen y Fenter Masnachu Moesegol, sy'n adlewyrchu confensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol.

St David's Catholic College, Ty Gwyn Road, Cardiff, CF23 5DQ 02920 498555 enquiries@stdavidscollege.ac.uk
*St David's Catholic College, Heol Ty Gwyn, Caerdydd, CF23 5DQ 02920 498555 ymholiadau@colegdewisant.ac.uk*

St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

Principal & Chief Executive: Geraint Williams BSc (Hon) MA
*Pennaeth a Phrif Weithredwr: Geraint Williams BSc (Hon) MA*



**Llywodraethiant a Goruchwylio**

Mae’r cyfrifoldeb am oruchwylio’r datganiad hwn yn gorwedd yn y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau gydag adolygiad blynyddol a chymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu. Caiff staff perthnasol sy’n ymwneud â phwrcasu ey gwneud yn ymwybodol o risgiau caethwaethiaeth drwy ein gweithdrefnau ariannol a gweithdrefnau pwrcasu.

**Ein hymrwymiadau parhaus**
Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn ceisio:

• Cryfhau’n dealltwriaeth o gadwyni cyflenwi a gwella tryloywder.
• Blaenoriaethu monitro mewn categorïau risg uwch a gweithio’n agos â chyflenwyr a phartneriaid fframwaith.
• Lleihau’r risg o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl o fewn ein cadwyni cyflenwi a gweithredu’n gyflym os bydd gofid yn cael ei amlygu.

Nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau o gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl o fewn ein cadwyn gyflenwi. Pe bai pryderon yn cael eu codi, byddem yn ymateb ar unwaith yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol a moesegol.
Gwneir y datganiad hwn o dan adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n nodi ein safbwynt a'n camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben yn 2025.

St David’s Catholic College, Ty Gwyn Road, Cardiff, CF23 5DQ 02920 498555 enquiries@stdavidscollege.ac.uk
*St David’s Catholic College, Heol Ty Gwyn, Caerdydd, CF23 5DQ 02920 498555 ymholiadau@colegdewisant.ac.uk*